



Cyfarfod

PWYLLGOR IAITH

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD LLUN, 13EG HYDREF, 2025

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting

Pwynt Cyswllt

Rhodri Jones

01286 679556

rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 3 Hydref 2025)

PWYLLGOR IAITH

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Rhys Tudur
Menna Baines
Alan Jones Evans
Olaf Cai Larsen
Meryl Roberts

Beca Brown
Elfed Wyn ap Elwyn
Jina Gwyrfaï
Gwynfor Owen
Elfed Williams

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Wendy Cleaver
Gwilym Jones
Hefin Underwood

Beth Lawton
Anne Lloyd-Jones

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is- gadeirydd y Cyngor

Aelod arall a wahoddir

Y Cynghorydd Llio Elenid Owen, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol– Y Gymraeg

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2025 fel rhai cywir.

5. ADRODDIAD YR ADRAN AMGYLCHEDD AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023-2033 11 - 18

I ystyried yr adroddiad.

6. ADRODDIAD YR ADRAN GYLLID AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023-2033 19 - 23

I ystyried yr adroddiad.

7. ADRODDIAD YR ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023-2033 24 - 31

I ystyried yr adroddiad.

PWYLLGOR IAITH: 30 MEHEFIN 2025

YN BRESENNOL:

Y Cynghorwyr:

Alan Jones Evans, Beth Lawton, Jina Gwyrfai, Elfed Williams, Anne Lloyd-Jones, Gwilym Jones, Hefin Underwood, Gwynfor Owen, Elfed Wyn ap Elwyn, Menna Baines, Meryl Roberts, Olaf Cai Larsen a Llio Elenid Owen (Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a dros y Gymraeg).

Swyddogion: Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Llio Mai Dafydd (Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg), Nia Lewis (Ymgynghorydd Iaith) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

HEFYD YN BRESENNOL:

Eitem 7: Sian Iolen Pritchard (Uwch Swyddog Gweithredol, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd), Aled Gibbard (Pennaeth Adran Plant Adnoddau Dros Dro), Nia Wyn Evans (Arweinydd Tîm Cefnogi'r Gweithlu, Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol) a Sian Edith Jones (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)

1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Menna Baines yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2025-26.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Meryl Roberts yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2025-26.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Beca Brown a Rhys Tudur.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

5. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys.

6. COFNODON

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2025 fel rhai cywir.

7. ADRODDIAD YR ADRAN OEDOLION IECHYD A LLESIANT AC ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023-2033

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Uwch Swydddog Gweithredol, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Pennaeth Adran Plant Adnoddau Dros Dro, Arweinydd Tim Cefnogi'r Gweithlu, Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol a Phennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Adroddwyd bod yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd o'u gwaith.

Tynnwyd sylw at gynllun 'Mwy na Geiriau', sef Fframwaith Strategol a gyhoeddwyd yn 2016 ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg yn y meysydd Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol. Pwysleisiwyd bod y fframwaith hwn yn ganolog i waith yr Adrannau er mwyn sicrhau bod cynnig gweithredol o ofal Gymraeg ar waith yn ymarferol o fewn y gwasanaethau.

Mynegwyd balchder bod datblygiad ap 'Niwro' yn adnodd arloesol ar gyfer cefnogi unigolion niwro-wahanol drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd bod defnydd o'r ap hwn yn codi statws yr iaith Gymraeg mewn maes ble nad yw'n derbyn ystyriaeth briodol yn hanesyddol.

Cyfeiriwyd at ddatblygiad cynllun Cartrefi Grŵp Bychan ar gyfer plant mewn gofal, gan adrodd bod y cynllun hwn yn caniatáu i blant mewn gofal aros o fewn eu cymunedau Cymraeg a pharhau i deimlo'n perthyn i'r iaith a'r diwylliant lleol.

Nodwyd bod cynlluniau o fewn y gwasanaeth Blynnyddoedd Cynnar, i ymestyn cyfleoedd chwarae a chynnig gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cyfrannu at greu amgylchedd naturiol ble all plant defnyddio'r iaith heb ymdrech. Ymhelaethwyd bod cynlluniau i ddatblygu sgiliau iaith y gweithlu hefyd yn hanfodol i sicrhau gwasanaethau cyraeddadwy a dwyieithog.

Rhannwyd enghraifft o brosiect cydweithredol trawsadrannol 'Croesi'r Bont'. Manylwyd bod y prosiect hwn yn cadarnhau bod cyfathrebu esmwyth yn y Gymraeg rhwng gwasanaethau. Ymhelaethwyd bod hyn yn caniatáu i'r defnyddiwr fod yn ganolog i'r prosesau.

Atgoffwyd bod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn canolbwyntio'n gryf ar brosiectau sydd ynghlwm â phrosiect Gwynedd Ofalgar o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd. Ymhelaethwyd bod moderneiddio cartrefi gofal, adnoddau cymunedol a llety i drigolion Gwynedd. Pwysleisiwyd bod defnyddio technoleg ar gyfer dod i adnabod anghenion lleol yn hanfodol i'r gwaith, gan gadarnhau bod cydweithio clos parhaus ar waith gyda'r Gwasanaeth Iechyd er mwyn hyrwyddo iechyd oedolion.

Tynnwyd sylw bod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ymdrechu i newid diwylliant yn parhaus er mwyn sicrhau gwasanaethau i'r dyfodol. Nodwyd hefyd bod cynlluniau hyfforddi yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y gweithlu yn gymwys i fynd i'r afael ag anghenion trigolion Gwynedd i'r dyfodol. Eglurwyd hefyd bod system gofal cynaliadwy yn weithredol er mwyn hyrwyddo lles oedolion, gan gadarnhau bod cynnal y system hon yn flaenoriaeth i'r adran.

Adroddwyd bod gwaith parhaus yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod technoleg addas i bwrpas yn weithredol o fewn y maes gofal, ac bod modd ei ddefnyddio yn y Gymraeg. Rhannwyd enghraifft o holiadur 'Percy' sy'n mesur ansawdd gofal o bersbectif yr unigolyn

sydd yn ei dderbyn. Pwysleisiwyd bod yr holiadur hwn wedi cael ei gyd-gynllunio gan bobl sydd gyda profiad o dderbyn gofal. Mynegwyd balchder bod fersiwn Cymraeg o'r holiadur ar gael.

Ymhelaethwyd bod yr Adran wedi bod yn gweithio ar feddalwedd 'AskSara', meddalwedd ar gyfer therapi galwedigaethol rhithiol i oedolion, plant a theuluoedd. Atgoffwyd bod y system hon yn caniatáu i ddefnyddwyr hunanasesu eu hanghenion. Mynegwyd balchder bod y meddalwedd hwn bellach ar gael yn y Gymraeg ar gyfer pawb yng Nghymru. Tynnwyd sylw bod y gwasanaeth yn defnyddio'r meddalwedd hwn dan enw 'Helpu'n Hun'.

Diweddarwyd bod y gwasanaeth yn gweithio ar offer Teleofal newydd, sydd ar drac i gael ei gyflwyno ym mis Rhagfyr 2025. Sicrhawyd bydd y dechnoleg hon ar gael yn y Gymraeg, gan fod swyddogion yn cydweithio gyda'r cwmni er mwyn cyfieithu'r cod technolegol er mwyn gallu cefnogi gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn effeithiol.

Eglurwyd bod system gofnodi'r gwasanaeth yn trosglwyddo o WCCIS i Mosaic o fewn y flwyddyn nesaf. Pwysleisiwyd bod holl wasanaethau gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio arno. Pwysleisiwyd bod Cyngor Gwynedd yn sicrhau bod y system newydd hwn ar gael yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Cydnabuwyd bod rhai o heriau presennol yn cynnwys recriwtio gweithwyr sy'n meddu â sgiliau'r Gymraeg yn ogystal â sicrhau bod technoleg Gymraeg ar gael i weithwyr a defnyddwyr. Eglurwyd bod recriwtio gweithwyr proffesiynol i'r maes yn her, gan gydnabod bod heriau penodol mewn ardaloedd o'r Sir. Rhannwyd enghraifft o anhawster recriwtio therapyddion galwedigaethol sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg ers rhai misoedd. Eglurwyd bod hyn wedi gorfodi'r adran i recriwtio unigolion drwy asiantaethau, gan nodi nad oes ganddynt sgiliau ieithyddol. Cyfeiriwyd at yr Academi Gofal gan fynegi gobaith y bydd yn denu siaradwyr Cymraeg i ddilyn gyrfa o fewn y maes gofal yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Adrannau yn ymdrechu'n barhaus i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o ddarpariaeth yn y maes cymdeithasol yng Ngwynedd, gan ymgymryd â phrosiectau arloesol i sicrhau datblygiadau newydd.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i ymholiad am anawsterau i sicrhau cyfleoedd dysgu cysylltiedig megis prentisiaethau, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant bod nifer o gynlluniau ar waith ar gyfer cynorthwyo gweithwyr digymhwyster i ddatblygu eu sgiliau a'u profiad er mwyn cymhwyso yn y maes. Nodwyd bod 3 prentis wedi cymhwyso eisoes gyda 2 unigolyn arall wedi cychwyn ar y siwrne prentisiaid yn ddiweddar. Eglurwyd bod 12 o gyfleoedd i brentisiaid yn flynyddol, yn ddibynnol ar gyllidebau'r Adrannau: 8 o brentisiaid yn cael eu penodi drwy'r Academi Gofal yn ogystal â 2 gyfle hyfforddi yn y meysydd therapi galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol. Pwysleisiwyd bod yr unigolion hyn yn derbyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd mai dim ond 30 ymgeisydd oedd wedi cymryd rhan ym mhroses recriwtio'r Academi Gofal y llynedd, gyda nifer o'r ymgeiswyr aflwyddiannus yn derbyn rolau cysgodol o fewn meysydd penodol er mwyn ennyn hyder a phrofiad i'r dyfodol. Ymhelaethwyd bod Gofalwyr Gogledd Cymru yn annog unigolion i gymhwyso yn y maes gan ddarparu cyngor a chymorth ariannol.

Gofynnwyd am fanylder ynglŷn â pha ardaloedd sydd yn profi heriau recriwtio yn fwy nag eraill ar hyn o bryd. Mewn ymateb, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant mai De Meirionnydd yw'r ardal ble mae'r prif heriau yn ymddangos ar hyn o bryd. Sicrhawyd bod yr Adran yn parhau i hysbysebu swyddi yn yr ardal hon ond bod rhaid comisiynu asiantaethau i gynorthwyo gyda llenwi rolau yn y pen draw er mwyn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn derbyn y gwasanaethau

sydd eu hangen arnynt. Cydnabuwyd mai blaenoriaeth yr asiantaethau hyn yw bod unigolion cymwysedig yn cael eu penodi i'r swyddi gan olygu nad ydynt o reidrwydd yn meddu â sgiliau'r Gymraeg. Yn yr un modd, cadarnhaodd Pennaeth Adran Plant Adnoddau Dros Dro bod heriau recriwtio ar gyfer ardal De Meirionnydd o fewn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd hefyd. Rhannwyd bod yr adran wedi bod yn cydweithio gyda Coleg Meirion Dwyfor yn Nolgellau sydd wedi arwain at gryn diddordeb o fewn y maes gofal yn yr ardal ac bod rhai swyddi wedi cael eu llenwi o'r herwydd. Sicrhaodd y ddwy adran bod unrhyw unigolyn sydd yn cael ei recriwtio pan mae heriau o fewn ardaloedd penodol o'r sir yn gweithio o fewn yr ardaloedd hynny er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth, a gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar pob cyfle posib.

Mewn ymateb i eglurder ar nifer ganrannol o swyddogion yr Adrannau sydd wedi cwblhau'r hunanasesiad iaith, cadarnhaodd Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg bod 93.6% o staff yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac 88.8% o staff yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi ei gwblhau. Eglurwyd bod y mwyafrif o'r staff wedi ei gwblhau yn annibynnol, gyda chyfran o'r gweithwyr yn cwblhau'r hunanasesiad gyda'u rheolwr gan nad oes ganddynt fynediad i'r holiadur yn annibynnol yn sgil natur rheng flaen eu swydd.

Tynnwyd sylw bod 81% o staff yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn cyrraedd dynodiad iaith eu swyddi, gan holi pa gymorth sydd yn cael ei ddarparu i sicrhau bod yr Adran yn ymrwymo i Bolisi Iaith y Cyngor drwy ddarparu cymorth i'r 19% arall o'r gweithlu sydd ddim yn cyrraedd dynodiad iaith eu swyddi. Mewn ymateb, cadarnhaodd Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg bod y Cyngor yn cydweithio gyda Chymraeg Gwaith er mwyn mynd i'r afael a'r her hon megis drwy gynnal sesiynau hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg i weithwyr yr Adran. Fodd bynnag, nodwyd bod hyn yn gallu bod yn anodd ei sefydlu gan fod natur shiftiau gwaith gweithwyr yr adran yn amrywiol, gan nodi bod angen sicrhau i natur unrhyw hyfforddiant fod yn hyblyg. Ymhelaethwyd bod adnoddau ar lein ac hunan-astudiaethol hefyd yn cael eu hystyried. Yn yr un modd, nodwyd bod Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn cynnig hyfforddiant ar lein gyda sesiynau blasu ar gael i weithwyr gofal. Pwysleisiwyd bod cynllun cyfeillio'r Cyngor yn bwysig iawn o fewn y maes gofal, gan egluro bod y cynllun yn paru unigolyn sy'n dymuno ymarfer eu sgiliau Cymraeg, gyda gweithiwr arall sydd yn barod i helpu. Eglurwyd bod hyn yn allweddol er mwyn codi hyder dysgwyr Cymraeg ac yn cael cyfle i ymarfer eu sgiliau yn y gweithle.

Mynegwyd balchder bo 50% o unigolion sy'n defnyddio llinellau ffôn cenedlaethol Cynnig Gofal Plant Cymru, gan ddefnyddio'r opsiwn i gyfathrebu yn Saesneg, yn penderfynu troi i'r Gymraeg wedi iddynt sylweddoli bod y gweithiwr sydd wedi ateb y galwad yn siarad Cymraeg. Nodwyd yr angen i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd bod y gwasanaethau ffôn hyn ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg fel eu bod yn ei ddewis ar ddechrau'r alwad, gan bwysleisio bod y galwadau hyn yn cael eu gwneud gan rieni. Ymhellach, nododd Uwch Swyddog Gweithredol, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd bod Cynnig Gofal Plant Cymru yn gwneud gwaith pellach ar hyn fel rhan o ymgyrch Llywodraeth Cymru i sicrhau bod miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Nododd Arweinydd Tim Cefnogi'r Gweithlu, Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol bod cyfresi o fideos bychan ar gael i staff a chynghorwyr, wedi ei datblygu gan ymgyrch Mwy na Geiriau. Eglurwyd bod y rhain yn annog pawb i gychwyn sgysiau yn y Gymraeg, a rhannwyd enghraifft o un ohonynt o fewn y cyfarfod. Tynnwyd sylw gall hyn fod yn ddefnyddiol i Gynghorwyr wrth gyfathrebu gyda thrigolion eu hetholaeth gan bwysleisio ei fod yn ddefnyddiol ar gyfer holl weithwyr y Cyngor.

Trafodwyd addysg drochi o fewn blynyddoedd meithrin yng Ngwynedd gan fynegi balchder bod y gwasanaeth Croesi'r Bont yn effeithiol iawn o fewn y Mudiad Meithrin. Mynegwyd balchder bod 17 o leoliadau meithrin Gwynedd yn llwyddo i ddarparu addysg meithrin drwy gyfrwng y Gymraeg gan nodi llithriad mewn 2 leoliad sydd yn ei gynnig yn ddwyieithog.

Nodwyd pryder mai dim ond 41% o blant 3 oed a throsodd oedd wedi dewis Cymraeg fel eu hiaith addysg ddewisol yn 2023/24. Gofynnwyd am wybodaeth bellach i egluro'r sefyllfa hyn a chadarnhaodd Pennaeth Adran Plant Adnoddau Dros Dro y byddai'n dod i gyswllt gyda'r Aelodau am wybodaeth bellach.

Manylwyd ar drefniadau ar gyfer plant mewn gofal gan ystyried os yw'r swyddogion yn hyderus eu bod yn derbyn gofal drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn eu lleoliadau ac os oes addysg Gymraeg yn cael ei gynnig ar gyfer unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli y tu hwnt i'r Sir. Mewn ymateb, cadarnhaodd Pennaeth Adran Plant Adnoddau Dros Dro mai'r prif flaenoriaeth mewn pob achos yw sicrhau bod y plant wedi eu lleoli mewn leoliad sydd yn addas i'w anghenion. Nodwyd bod hyn y golygu nad oes gofalfwyr Cymraeg ar gael ond mae'r adran yn helpu i ddenu mwy o ofalfwyr maeth sy'n siarad Cymraeg er mwyn sicrhau bod gofynion ieithyddol plant mewn gofal yn cael eu cyfarch. Cadarnhawyd bod y mwyafrif o blant mewn gofal o fewn y sir yn derbyn gofal drwy gyfrwng y Gymraeg ond ei fod yn heriol i sicrhau hyn ar gyfer unrhyw un sydd mewn lleoliad all-sirol, gyda problem mwy byth mewn lleoliadau preswyl i sicrhau gofal Cymraeg. Ymhelaethwyd bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r adran Addysg er mwyn sicrhau bod adnoddau Cymraeg ar gael i blant mewn gofal, gan gadarnhau bod hyn yn bosib yn y mwyafrif o bynciau.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR WEITHREDIAD Y SAFONAU IAITH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu a tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd bod gofynion y Safonau Iaith yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin, yn unol ag Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ymhelaethwyd bod gofyn i'r adroddiad blynyddol rannu gwybodaeth megis Safonau 151, 152, 154, 158, 164 ac 170.

Adroddwyd bod 99.1% o staff y Cyngor yn meddu ar ryw fath o sgiliau yn y Gymraeg gan fanylu bod 90% o holl staff y Cyngor yn cyrraedd dynodiad iaith eu swyddi.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i gais am fanylder pellach i ddata sgiliau iaith y gweithlu, cadarnhaodd Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg bod unrhyw aelod o staff sydd yn meddu a sgiliau'r Gymraeg, boed yn allu i gyfathrebu ychydig eiriau neu frawddegau yn Gymraeg neu'n cyrraedd lefel sgiliau Cymraeg hyfedredd yn gynwysedig.

Mewn ymateb i ymholiad ar sut mae dynodiadau iaith ar gyfer swyddi yn cael eu pennu, cadarnhaodd Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg bod rhain yn cael eu penderfynu gan y rheolwr llinell. Ymhelaethwyd byddai'r rheolwr yn ystyried ffactorau megis cyswllt gyda'r cyhoedd, gweithio mewn rhan o dim a'r angen i gyfathrebu'n ysgrifenedig cyn penderfynu ar dynodiad iaith addas ar gyfer swyddi. Nodwyd hefyd bod y rheolwr llinell yn nodi os bydd aelodau staff yn cyrraedd dynodiad iaith y swydd. Atgoffwyd bod yr hunanasesiad iaith hefyd yn rhoi cyfle i aelodau staff rannu eu barn eu hunain am eu sgiliau ieithyddol.

Ystyriwyd bod sylwadau cyson gan Adrannau'r Cyngor yn nodi bod hyder yn amharu ar ganlyniadau staff wrth iddynt gwblhau'r hunanasesiad ieithyddol. Mewn ymateb i gwestiwn os ai gorhyderus neu ddihyder yw'r swyddogion yn eu gallu, pwysleisiodd Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg mai dihyder yn eu sgiliau yw aelodau staff. Manylwyd bod hyn yn enwedig yn wir ar gyfer agweddau sydd yn delio â sgiliau Cymraeg ffurfiol neu broffesiynol. Cadarnhawyd bod trefniadau mewn lle fel bod y Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg yn cysylltu gyda'r rheolwr llinell berthnasol mewn achosion ble mae aelod o staff yn agos i gyrraedd dynodiad iaith y swydd, ond bod yr hunanasesiad yn nodi nad ydynt yn hyderus, gan nodi bod y rheolwr yn nodi bod yr aelod staff yn cyrraedd y dynodiad iaith yn y mwyafrif o achosion. Pwysleisiwyd bod cymorth ar gael i unrhyw un sydd ei angen er mwyn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd. Ychwanegwyd bod y gwaith sydd yn cael ei wneud ar y cyd gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i chwalu mythoedd am anghenion sgiliau iaith yn gymorth i gynyddu lefelau hyder staff y Cyngor.

Tynnwyd sylw bod yr adroddiad yn nodi bod 97% o holl osodiadau tai Gwynedd a osodwyd o fewn y Polisi Gosod Tai yn mynd i unigolion gyda chysylltiad â Gwynedd. Ymholwyd beth oedd diffiniad y gosodiad hwn ond penderfynwyd nad oedd swyddog priodol yn bresennol ar gael i fynd i'r afael a'r pwnc hwn.

Nodwyd bod nifer o sesiynau hyfforddiant y Cyngor yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Saesneg a gofynnwyd beth sydd yn cael ei wneud er mwyn ceisio lleihau'r niferoedd hyn i'r dyfodol. Mewn ymateb, eglurodd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu nad oedd yn hapus bod cynifer o sesiynau hyfforddiant Saesneg a bod gwaith yn mynd rhagddo i gysylltu gyda'r Adrannau er mwyn gweld pam bod hyfforddiant drwy gyfrwng y Saesneg yn parhau i gael eu cynnal a pha gymorth gall gael ei gynnig iddynt er mwyn addasu'r sesiynau hynny i fod yn rhai Cymraeg. Eglurwyd bod 447 o sesiynau hyfforddiant Cymraeg, 254 o sesiynau Saesneg ac 123 o sesiynau dwyieithog wedi cael eu cynnal yn ystod 2024/25.

Mewn ymateb i ymholiad am yr hyn a ellir ei wneud er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth rheolwyr o safonau'r Gymraeg, cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu bod adnoddau ar gael ar dudalennau mewnol y Cyngor yn ogystal â diweddariadau cyson drwy gyfarfodydd timau rheoli.

Ystyriwyd y Fforwm Iaith gan ofyn os yw'r Cyngor yn Cydweithio gyda Mudiad Ffermwyr Ifanc er mwyn rhannu gwybodaeth o fewn yr Is-grŵp Pobl Ifanc. Mewn ymateb, cadarnhad yr Ymgynghorydd Iaith bod Mudiadau Ffermwyr Ifanc Eryri a Meirionydd yn derbyn gohebiaeth am yr Is-grŵp ond nid oes cynrychiolydd wedi bod yn bresennol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, sicrhawyd eu bod yn parhau i dderbyn y wybodaeth berthnasol ddiweddaraf. Mynegwyd dyheadau i'r berthynas yma gyda'r mudiad barhau i wella i'r dyfodol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

- 1. Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y drafodaeth.**
- 2. Argymhell i'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a dros y Gymraeg i gyhoeddi'r adroddiad erbyn 30 Mehefin 2025.**

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:00yb a gorffennodd am 11:20yb.

CADEIRYDD

Eitem 5

CYFARFOD	Pwyllgor Iaith
DYDDIAD	13 Hydref 2025
TEITL	Adroddiad Adran Amgylchedd ar weithrediad y Polisi Iaith a chyfraniad tuag at wireddu Strategaeth Iaith Gymraeg 2023 - 2033
AWDUR	Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd

1. CEFNDIR

- 1.1. Bwriad yr adroddiad hwn ydi cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor Iaith am gyfraniad yr Adran Amgylchedd i Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor.
- 1.2. Mae'r Adran yn cynnwys amrediad o wasanaethau ar draws meysydd Gwastraff ac Ailgylchu, Trafnidiaeth, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.
- 1.3. Mae natur y gwasanaethau yma yn golygu fod staff yn dod i gyswllt rheolaidd gydag aelodau'r cyhoedd, cynghorwyr, staff eraill y Cyngor, awdurdodau a phartneriaid allanol eraill.
- 1.4. Fel Adran, rydym yn sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu darparu yn newis iaith y cwsmer, ac mae ymdrech gan swyddogion yr Adran i hyrwyddo defnydd yr iaith Gymraeg mewn amryw weithgareddau ac yn rhinwedd eu gwaith.

2. YMATEB I GWESTIYNAU'R PWYLLGOR

1. Pa bolisiâu a chynlluniau sydd mewn lle o fewn eich adran er mwyn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith? Nodwch y maes blaenoriaeth (blynyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned neu ymchwil a thechnoleg)

Polisiâu a chynlluniau strategol perthnasol / Prosiectau yng nghynllun y Cyngor

Cynllun Datblygu Lleol

Mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar brosiect Cynllun y Cyngor o baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) newydd, sy'n flaenoriaeth dan thema Gwynedd Werdd yng Nghynllun y Cyngor 2023 – 2028. Mae Tîm Polisi Cynllunio o fewn yr Adran yn arwain ar y gwaith o baratoi'r CDLI newydd, lle bydd ystyriaeth o'r Gymraeg yn ganolog o'r gwaith. Mae'r gwaith o baratoi'r CDLI yn parhau.

Yn y cyfamser, mae gwaith y Tîm Polisi Cynllunio yn parhau i fonitro, adolygu a diwygio'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (2011-26) gan gynnwys paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol. Mae ystyriaeth o'r iaith Gymraeg wedi bod yn ganolog i'r broses o baratoi'r Cynllun sy'n ymgorffori Polisi Cynllunio PS1 sy'n ymwneud yn benodol â'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig.

Mae Canllaw Cynllunio Atodol (Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy), yn cynnwys arweiniad manwl ar sut i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg wrth ddelio gyda cheisiadau am ddatblygiadau newydd.

Cyfarwyddyd Erthygl 4

Mae'r prosiect 'Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr' dan thema Gwynedd Glyd yng Nghynllun y Cyngor yn cynnwys y gwaith o osod a gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4. Nod y gwaith yma ydi ceisio gwyrddo'r anghydraddoldeb cymdeithasol sy'n bodoli yn rhai o gymunedau Gwynedd, a cheisio sicrhau bod darpariaeth o dai ar gael i gyfarch anghenion lleol.

Mae papur cyfiawnhau'r Erthygl 4 yn nodi: 'Mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, mae creu cymunedau cynaliadwy lle mae'r iaith Gymraeg wedi cael ei throchi'n llwyr o fewn cymunedau a darparu ac ail-greu'r cyd-destun cymdeithasol angenrheidiol i ddefnyddio'r iaith Gymraeg fel rhan o ddefnydd arferol cymdeithas yn hanfodol er mwyn gwarchod ac annog twf yr iaith Gymraeg. Gydag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'r gallu i gael gwell rheolaeth dros y stoc dai a thrwy hynny cheisio sicrhau fod yna ddarpariaeth ddigonol a fforddiadwy o dai i bobl leol yn fodd o gynorthwyo'r nod hyn.'

Mae'r Cyfarwyddyd yn weithredol ers 1 Medi 2024, ac mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn derbyn ceisiadau ar gyfer newid defnydd o brif gartrefi i ail gartrefi neu lety gwyliau tymor byr; newid defnydd ail gartrefi i lety gwyliau tymor byr a defnyddiau cymysg penodol a newid defnydd llety gwyliau tymor byr i ail gartrefi a defnyddiau cymysg penodol ble yn flaenorol nid oedd angen hawl cynllunio ar gyfer hyn.

Ers dod yn weithredol, derbyniwyd 16 cais cynllunio ar gyfer newid defnydd sy'n deillio yn uniongyrchol o'r Cyfarwyddyd Erthygl 4. O'r 16 cais yma, mae 10 cais wedi eu gwrthod, 4 cais wedi eu tynnu yn ôl ac mae 2 gais eto i'w penderfynu.

Ar 24 Medi 2025 fe dderbyniodd Cyngor Gwynedd ddyfarniad yr Uchel Lys yn gysylltiedig â'r Cyfarwyddyd Erthygl 4. Mae'r dyfarniad yn dod i gasgliad fod yr hawliad yn erbyn penderfyniad y Cabinet i gadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn llwyddo.

Mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu apelio'r dyfarniad ac mae gwaith eisoes ar droed ar gyfer cychwyn y broses honno. Yn y cyfamser, a hyd nes bydd Gorchymyn Llys ffurfiol yn cael ei dderbyn, mae'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn parhau mewn grym.

Prosiectau a chynlluniau eraill

Cynllunio, Polisi Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu

Wrth ymdrin ag unrhyw gais cynllunio, mae penderfyniadau yn cael eu gwneud yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, sy'n cynnwys polisi penodol o ran yr iaith Gymraeg a Chanllaw Cynllunio Atodol sy'n rhoi arweiniad manwl ar sut i weithredu'r polisi.

Trwy weithredu yn y modd yma, mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn parhau i gyfrannu tuag at hyrwyddo'r iaith yn yr ardal gan sicrhau fod ceisiadau'n rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg.

Yn ystod cyfnod Ebrill 2024 i Fawrth 2025, derbyniwyd 3 Asesiad leithyddol a 22 Datganiad leithyddol gyda cheisiadau a benderfynwyd a oedd yn cyfarch y trothwyon o fewn Polisi Cynllunio PS 1. Yn ogystal, yn unol ag Atodiad 5 o'r Canllaw Cynllunio Atodol, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gymraeg ar gyfer ceisiadau sy'n is na throthwy'r rhai y mae angen Datganiad neu Asesiad ffurfiol arnynt.

Cafodd 4 cais cynllunio eu gwrthod yn rhannol oherwydd materion ieithyddol, a chafodd 24 cais ganiatâd gydag amod cynllunio ar gyfer mesurau lliniaru ieithyddol. Roedd y rhain yn cynnwys y dylai unrhyw enw newydd ddeillio o gysylltiadau hanesyddol, daearyddol neu leol i'r ardal lle'n bosib.

Mae hyn yn plethu gyda phrosiect Gwarchod Enwau Lleoedd y mae sawl Gwasanaeth o'r Adran Amgylchedd yn cyfrannu ato, gan gynnwys y Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu.

Mae gan y Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu gyfrifoldeb am reoli enwi strydoedd ac enwi a rhifo eiddo, gyda dyletswydd statudol i sicrhau fod unrhyw enw newydd neu ddiwygiad i enwau strydoedd ac eiddo yn cael eu dyrannu'n rhesymegol ac mewn modd cyson.

Er nad oes pwerau gorfodi i wrthod cais oni bai fod yna ddyblygu neu nad ydi'r enw yn briodol, mae'r Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu yn cymryd ymagwedd ragweithiol i amlygu arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol enwau Cymraeg.

Mae'r ystadegau blynyddol diweddaraf yn dangos y bu 113 o geisiadau i newid neu gofrestru enwau eiddo, gyda 88% o'r enwau a gofrestrwyd drwy'r Post Brenhinol yn enwau Cymraeg. Nodir lle gwnaeth ymgeiswyr gais i newid o enw Cymraeg i Saesneg, bod cysylltiadau gyda enw(au) busnes. Mae'n galonogol iawn, fod 18 o berchnogion eiddo wedi newid o enwau Saesneg yn ôl i enwau Cymraeg gyda llawer yn gwerthfawrogi'r enw hanesyddol gwreiddiol (eraill yn newid o un enw Cymraeg i un arall neu'n gosod enw ar eiddo am y tro cyntaf a hynny yn y Gymraeg).

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio hefyd wedi bod yn cydweithio gydag Uned Iaith y Cyngor ar waith Y Gymraeg mewn Busnes. Mae nodyn sy'n codi ymwybyddiaeth ac sydd hefyd yn cynnig cyngor yn mynd allan ar ymatebion cyngor ymlaen llaw ac mae nodyn gwybodaeth hefyd ar gael i swyddogion ddefnyddio ar ddyfarniadau cynllunio. Gosodwyd amod cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiadau tai newydd i sicrhau enw Cymraeg i'r tŷ a neu'r stad.

Yn ystod 2024/25, gosodwyd amod ar 54 o caniatadau cynllunio sydd yn sicrhau enw Cymraeg ar fusnesau newydd a dros 110 o dai newydd.

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn

Mae Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn yn ddogfen statudol y mae'n ofynnol i'r Cyngor ei baratoi a'i adolygu o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae'r Cynllun presennol yn adnabod y Gymraeg a'r diwylliant lleol fel un o rinweddau arbennig yr ardal ac yn cynnwys polisiâu a gweithredoedd i gefnogi a hyrwyddo'r iaith. Mae gwaith yn digwydd ar hyn o bryd i adolygu'r Cynllun.

Mae swyddogion Uned Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cynnal digwyddiadau drwy'r Gymraeg a/neu dwyieithog fel hyfforddiant sgiliau gwledig, teithiau cerdded (yn cynnwys rhai penodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg newydd) a sgysiau ac yn mynychu digwyddiadau fel Sioe Nefyn i godi ymwybyddiaeth am y dynodiad a'r gwaith. Hefyd mae'r Uned yn cyhoeddi newyddlen ddwyieithog yn flynyddol - Llygad Llŷn, gyda chopïau caled yn cael eu dosbarthu yn yr ardal a fersiwn electronig ar gael ar [wefan AHNE <https://www.ahne-llyn-aonb.org/Content/Upload/Llygad-Llyn-19-C.pdf>](https://www.ahne-llyn-aonb.org/Content/Upload/Llygad-Llyn-19-C.pdf) hefyd.

Tirwedd a Natur

Mae llawer o waith swyddogion y maes Tirwedd a Natur yn golygu gweithio'n agos gyda'r cyhoedd, ac mae hwyluso mynediad at ein hamgylchedd naturiol yn rhan annatod o'u gwaith.

Mae swyddogion bioamrywiaeth yn cynnal gwaith rheolaidd i annog diddordeb a hyrwyddo natur. Mae swyddogion wedi datblygu "Geiriadur Coed Cymru" sy'n adnodd defnyddiol sy'n rhestr enwau Cymraeg ar blanhigion, coed a blodau. Mae'r llyfryn yn cael ei rannu mewn amryw o ddigwyddiadau mae'r fîm yn mynychu a'u cynnal fel rhan o ymdrechion i hyrwyddo enwau Cymraeg ar fywyd gwyllt.

Fel rhan o brosiect bioamrywiaeth a gyllidwyd trwy Bartneriaeth Natur Gwynedd ym Mharc Meurig ym Methesda, mae gwaith ymgysylltu cymunedol wedi digwydd yng nghyswllt coeden hanesyddol lle cynhaliwyd gwaith diogelu. Gyda mewnbwn gan haneswyr lleol a Gwasanaeth Archifau'r Cyngor, mae llinell amser wedi'i osod ger 'Coeden Meurig' yn nodi rhai digwyddiadau o bwys hanesyddol a diwylliannol sydd wedi digwydd yn ardal Dyffryn Ogwen yn ystod y 500 mlynedd ers i'r goeden ddechrau tyfu. Mae bwrdd arddangos dwyieithog arall hefyd wedi ei osod sy'n egluro arwyddocâd y goeden a'r planhigion ac anifeiliaid sy'n byw ger y goeden, ac mae'r ymateb yn lleol wedi bod yn gadarnhaol i'r byrddau arddangos.

Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau

Mae fîm Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau yn parhau i arwain ar becyn addysg ddwyieithog 'Tir a Môr' ar gyfer ysgolion cynradd. Ers i ni adrodd am hyn yn flaenorol, mae copïau caled o'r pecyn sy'n cynnig adnoddau safonol sydd ar gael i athrawon eu defnyddio gyda'u dosbarthiadau, eu dosbarthu i bob ysgol gynradd yng Ngwynedd, ac mae fersiwn ddigidol ar gael yn rhad ac am ddim ar wefan www.tiramor.cymru <<http://www.tiramor.cymru>>, gan ehangu mynediad i athrawon, disgyblion a theuluoedd. Mae rhagor o fanylion am y gwaith yma i'w weld yn adran 6.

Mae'r fîm ACA yn cynhyrchu cylchgrawn dwyieithog 'O Dan y Don', sy'n canolbwyntio ar faterion morol ac sy'n cael ei greu drwy waith Ardal Gadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau. Mae'r cyhoeddiad rhad ac am ddim hwn yn codi ymwybyddiaeth o amgylchedd morol unigryw Gwynedd, gan hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg. Bydd y pedwerydd rhifyn yn cael ei ddosbarthu i leoliadau allweddol ledled Gwynedd yn ystod yr wythnosau nesaf, gyda chopi digidol o'r cylchgrawn hefyd ar gael ar-lein, gan ganiatáu i ddarllenwyr ymgysylltu'n ddigidol yn y ddwy iaith. Mae pob rhifyn yn cynnwys erthyglau, nodweddion a straeon sy'n tynnu sylw at fywyd morol lleol, gwaith cadwraeth a chyfluoedd i bobl gymryd rhan. Mae'r rhifyn diweddaraf hefyd yn cynnwys erthygl am hen dermau Cymraeg ar gyfer lleoedd a rhywogaethau yng Ngwynedd, gan

helpu darllenwyr i gysylltu â'r iaith a'r dreftadaeth leol. Trwy iaith ddeniadol a dyluniad o safon uchel, mae *O Dan y Don* yn annog pobl i ddarllen yn Gymraeg ac yn helpu i normaleiddio'r iaith mewn cyd-destunau bob dydd.

Ynghyd â'n prif brosiectau, mae'r fîm ACA yn cynnal amrywiaeth eang o weithgareddau ymgysylltu gan gynnwys sgysiau, digwyddiadau a stondinau mewn sioeau lleol. Mae'r swyddogion yn hyrwyddo'r Gymraeg yn weithredol drwy deithiau tywys yn y Gymraeg, lle mae cyfranogwyr yn archwilio enwau lleoedd lleol ac enwau rhywogaethau, gan ddyfnhau eu dealltwriaeth o'r iaith a'r tirwedd. Maent hefyd wedi gweithio gyda siaradwyr Cymraeg newydd, gan gynnig sgws a thaith gerdded i'w helpu i ymarfer eu Cymraeg ac ehangu eu geirfa mewn amgylchedd anffurfiol a chefnogol.

Gwarchod y Cyhoedd

Mae 2 Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd (Safonau Masnach a Thrwyddedu; lechyd yr Amgylchedd) yn darparu deunyddiau ymgyrchoedd dwyieithog, ac mae ffurflenni cais i gyd yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae polisiâu megis y Datganiad o Bolisi Trwyddedu 2024 yn cydnabod yr angen i fusnesau ystyried yr iaith Gymraeg a ffactorau sy'n berthnasol i ddiwylliant ardal wrth ymgeisio am drwydded alcohol, ac wrth redeg busnes.

Gwastraff ac Ailgylchu

Mae swyddogion Ailgylchu yn ymgymryd â gwaith cyson yn annog trigolion y sir i wneud y mwyaf o wasanaethau ailgylchu'r Cyngor. Mae'r holl wybodaeth a deunydd cyhoeddusrwydd a gynhyrchir yn ddwyieithog, gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg.

Mae swyddogion yn mynychu digwyddiadau i hyrwyddo'r gwasanaethau ac yn cyfathrebu a chyflwyno yn Gymraeg, gan ymweld ac ymgysylltu gyda 19 o ysgolion y sir yn y cyfnod o Ionawr hyd Gorffennaf 2025. Mae hyn yn cynnwys cyflwyniadau i ysgolion cyfan, trafodaethau gyda Chyngor Eco ysgolion, gweithgareddau mwy ymarferol a sgysiau am fuddion ailgylchu.

Mae deunydd hyrwyddo sy'n cael ei gynhyrchu yn sicrhau defnydd o Gymraeg clir, ac mae holl negeseuon mewnol i'r gweithlu yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg.

Diogelwch y Ffyrdd

Mae swyddogion Diogelwch y Ffyrdd yn gweithio'n agos gydag ysgolion a cholegau, ac yn ymweld nifer o leoliadau yn y sir yn addysgu a hyrwyddo diogelwch wrth gerdded a beicio. Mae'r ymweliadau yma yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb ac yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg oni bai fod dewis iaith aelod o'r cyhoedd yn galw am gyfathrebu'n Saesneg. Mae'r fîm hefyd yn hyrwyddo eu gwaith trwy wefannau a chyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog.

Mae'r isod yn crynhoi prif weithgareddau'r fîm yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25:

- 74 o ysgolion wedi derbyn hyfforddiant seiclo - wedi ei ddarparu i 775 o blant.
- 3,412 wedi derbyn hyfforddiant cyffredinol mewn ysgolion cynradd – Amser Stori/Gwisga Fo!/Cwis/Sesiwn Gwn Radar ayyb.

- Hyfforddiant Kerbcraft wedi ei gyflwyno i 525 o blant.
- Hyfforddiant Pass Plus (oedolion) wedi ei gyflwyno i 49 unigolyn.
- Digwyddiadau codi ymwybyddiaeth wedi eu darparu:
 - Ymweliadau i Lyfrgelloedd Caernarfon, Pwllheli, Tywyn, Blaenau Ffestiniog (x2), Porthmadog,
 - Ymweliadau Diwrnod o Hwyl (Adran Cefnogi Teuluoedd y Cyngor) – Canolfan Hamdden Blaenau Ffestiniog (x2), Byw'n Iach Caernarfon, Plas Silyn Penygroes (x2), Deiniolen, Canolfan Maesgeirchen Bangor, Plas Ffrancon Bethesda, Byw'n Iach Glan Wnion Dolgellau
- Lansio Llyfrau Newydd Teithio Llesol Carys Ofalus, gan gynnig adnodd gwerthfawr i deuluoedd. Fel rhan o'r lansiadau, bu swyddogion yn ymweld ysgolion, cynnal amser stori a chrefft gan gynnwys Sesiynau Sgwtera.

2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?

Parhau ar y gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd, lle bydd ystyriaeth lawn yn cael ei roi i'r Gymraeg yn y camau penodol sydd ynghlwm gyda'r gwaith ac mae hyn wedi ei amlinellu o fewn y Cytundeb Cyflawni ar gyfer y Cynllun. Dangosir sut mae ystyriaeth yn cael ei roi i'r iaith Gymraeg ar gamau penodol o'r broses yn cychwyn efo'r Ddogfen Hoff Strategaeth.

Yn ogystal, gan fod Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn weithredol ers 1 Medi 2024, mae Uned Gorfodaeth y Gwasanaeth Cynllunio yn symud ymlaen i ddelio gyda chwynion ynglŷn â newid defnydd o brif gartrefi i ail gartrefi neu lety gwyliau tymor byr; newid defnydd ail gartrefi i lety gwyliau tymor byr a defnyddiau cymysg penodol a newid defnydd llety gwyliau tymor byr i ail gartrefi a defnyddiau cymysg penodol. Ers 1 Medi 2024, mae 15 o gwynion wedi eu derbyn gan yr Uned Gorfodaeth.

Byddwn yn parhau i amlygu'r cyfleoedd hyfforddiant a chysiau gloywi iaith a datblygu hyder yn y Gymraeg ymhlith staff yr Adran. Mae gwybodaeth am y cyfleoedd yma yn cael eu rhannu ym mwletinâu'r Adran a thrwy negeseuon rheolaidd am gyrsiau neu hyfforddiant o'r newydd.

3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhwch enghraifft. Sut ydych chi'n sicrhau nad yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Fel sydd wedi ei nodi yn flaenorol, mae unrhyw systemau allanol a ddefnyddir ar gael trwy gyfrwng Saesneg yn unig fel rheol. Gyda chymorth Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor, rydym yn parhau i sicrhau fod unrhyw systemau sy'n wynebu'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Mae gwaith yn digwydd i osod system gyfrifiadurol gwastraff newydd yn mynd rhagddo a gomisiynwyd gan gwmni allanol. Trwy gydweithio efo'r cwmni a chefnogaeth y Gwasanaeth TG y Cyngor, rydym wedi gallu sicrhau fod y data ar gael yn ddwyieithog neu yn y Gymraeg ar gael i'r staff mewnol, er nad yw wedi bod yn bosib newid bwydlenni'r swyddfa gefn sydd yn Saesneg yn unig.

Rydym yn sicrhau fod unrhyw ohebiaeth gychwynnol yn mynd yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf, er mwyn ceisio annog a hybu defnydd yr iaith lle bynnag mae hynny'n bosib.

4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol?

Er nad oes data hwylus o ran niferoedd sy'n derbyn gwasanaeth yn Gymraeg, mae manylion am ddewis iaith aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn cael eu nodi trwy ein systemau gan sicrhau fod unrhyw ohebiaeth yn cael ei ddarparu yn yr iaith mae'r derbynnydd yn ei ffafrio.

Rydym bob amser yn sicrhau fod unrhyw ohebiaeth gychwynnol yn cael ei ddarparu yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf, gan geisio annog a hybu defnydd yr iaith.

5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?

Mae'r ffigyrau diweddaraf (Medi 2025) yn dangos cynnydd cadarnhaol o'i gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol o ran y nifer o staff yr Adran sydd wedi derbyn asesiad iaith, boed yn hunanasesiad neu asesiad rheolwr llinell.

Nifer wedi derbyn asesiad (hunanasesiad neu asesiad rheolwr llinell) – **93.83% (380)**
Nifer wedi cwblhau hunanasesiad – **82.96% (336)**
Nifer sy'n cyrraedd dynodiadau iaith y swydd – **89% (337)**

Er hyn, dylid nodi nad ydi'r ffaith fod aelod o staff yn cwrdd y gofynion iaith yn golygu nad ydynt yn gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg, ac mae'r Adran yn hyrwyddo unrhyw gyfleoedd i staff fynychu hyfforddiant i ddatblygu sgiliau neu loywi iaith.

Mae ymdrechion rheolaidd i dynnu sylw staff at gyfleoedd gwella a datblygu sgiliau Cymraeg, ac mae aelod o staff y maes Gwastraff wedi cofrestru yn ddiweddar ar gyfer mynychu cwrs.

6. Rhowch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Mae fîm Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau wedi arwain gwaith i baratoi pecyn addysg ddwyieithog 'Tir a Môr' ar gyfer ysgolion cynradd. Mae'n cynnig adnoddau i athrawon eu defnyddio gyda, gyda fersiwn electronig hefyd ar gael sy'n ehangu mynediad i athrawon, disgyblion a theuluoedd.

Drwy wreiddio'r Gymraeg ym mhob gweithgaredd, mae'r pecyn yn atgyfnerthu'r defnydd o'r iaith yn yr ystafell ddosbarth ac yn y gymuned ehangach. Mae hefyd yn helpu i ehangu geirfa Gymraeg disgyblion drwy gyflwyno terminoleg arbenigol,

gan gynnwys enwau rhywogaethau a thermau amgylcheddol, gan roi mwy o hyder i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.

Datblygwyd y pecyn mewn partneriaeth ag ystod eang o sefydliadau trwy dîm ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, gan hyrwyddo'r Gymraeg y tu hwnt i'r sector addysg a chefnogi cydweithio ag awdurdodau eraill. Mae Cyngor Sir Ynys Môn eisoes wedi mabwysiadu'r pecyn, ac mae diddordeb yn ei ehangu'n adnodd Cymru-gyfan drwy gyllid yn y dyfodol. Mae'r adborth gan athrawon a disgyblion wedi bod yn hynod gadarnhaol.

O ran rhwystrau cyffredinol, nodwyd eisoes yr heriau y gellir eu profi o ran systemau cyfrifiadurol allanol. Er bod elfennau o'r elfen swyddfa gefn yn Saesneg, mae cydweithio cadarnhaol gyda Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor yn sicrhau fod systemau mewnol ar gael yn y Gymraeg, ac mae unrhyw elfennau sy'n wynebu'r cyhoedd yn gwbl ddwyieithog.

Pan fydd corff sector cyhoeddus eisiau prynu unrhyw nwyddau, gwaith neu wasanaethau dros werth penodol ("trothwy") rhaid iddo hysbysebu trwy drefniant Canfod Tendr (FTS). Nid yw FTS yn derbyn hysbysiadau yn Gymraeg yn unig, gan mai Saesneg yw'r iaith orfodol ar gyfer y cyhoeddiad hwn, ond rydym yn trefnu hysbysiadau dwyieithog.

Mae copi o Bolisi Iaith y Cyngor yn cael ei gynnwys yn unrhyw ddogfennau tendro'r Adran, a gofynnir i bob ymgeisydd ei ddarllen er mwyn sicrhau eu bod yn deall beth yw'r gofynion ohonynt o ran y Gymraeg ond hefyd eu bod yn deall pwysigrwydd y Gymraeg i Gyngor Gwynedd. Caiff gofynion ieithyddol (sy'n adlewyrchu Polisi Iaith y Cyngor) pob contract eu pennu yn ôl anghenion y contract hwnnw.

Adroddiad yr adran i Bwyllgor Iaith yn 2024:

[Adroddiad yr Adran Amgylchedd.pdf](#)

Cyfarfod	Pwyllgor Iaith
Dyddiad	13 Hydref 2025
Teitl	Cynllun Hybu'r Gymraeg – Adran Gyllid
Pwrpas	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran Gyllid i hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg
Awdur	Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

1. Pa bolisiau a chynlluniau sydd mewn lle o fewn eich adran er mwyn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith? Nodwch y maes blaenoriaeth (blynyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned neu ymchwil a thechnoleg)

Prosiectau yng nghynllun y Cyngor

Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd 2023/2028

Mae'r cynllun yn cwmpasu 29 prosiect i gefnogi Cyngor Gwynedd i fod yn GYNGOR DIGIDOL, ble mae technoleg yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth er mwyn darparu gwasanaethau'n fwy economaidd ac effeithiol, a ble mae'r cwsmer yn fwyfwy canolog ym mhopeth rydym yn ei wneud.

Mae egwyddorion cydraddoldeb a llesiant yn wythiennau cyson oddi fewn y Cynllun, gan gynnwys y Gymraeg ac elfen cynaliadwyedd y Pum Ffordd o Weithio, gyda'r ymrwymiad i gynnwys y Gymraeg mewn trefn Asesiad Addasrwydd Digidol ar gyfer mewn nosod unrhyw ddatblygiad digidol oddi fewn y Cyngor. Mi fydd yr asesiad addasrwydd yn dwyn ar safonau digidol sydd wedi eu cyhoeddi gan Comisiynydd y Gymraeg, gan eu gweithredu ar gyfer unrhyw ddatblygiad mewnol neu gaffael datrysiad gan gwmnïau trydydd parti.

Prosiectau a chynlluniau eraill

Defnydd dydd-i-ddydd

Rydym yn ymfalchïo fod yr holl adran yn darparu ei wasanaethau trwy'r Gymraeg a credwn fod y gallu i weithio o ddydd-y-ddydd trwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn gymorth mawr wrth ddenu a phenodi staff newydd. Mae gennym dystiolaeth fod y diwylliant yma wedi meithrin hyder nifer o'n staff newydd gan gryfhau eu ddefnydd o'r iaith.

Archwilio Cymru

Mae swyddogion yr Adran yn cynnal cyfarfodydd yn uniaith Gymraeg gyda swyddogion Archwilio Cymru. Credwn fod hyn wedi rhoi ysgogiad i Archwilio Cymru gryfhau eu trefniadau o'r Gymraeg a credwn fod hyn wedi bod yn gyfle i staff Archwilio Cymru ddatblygu eu Cymraeg hefyd a gwneud mwy o defnydd ohono.

Hyfforddiant

Mae Adran Gyllid Cyngor Gwynedd yn un o'r cyflogwyr prin hynny sy'n cynnig hyfforddiant proffesiynol mewn materion ariannol a thechnoleg gwybodaeth trwy'r Gymraeg. Rydym yn cynnig lleoliadau Cymraeg i Brentisiaid a Hyfforddeion yn y Gwasanaeth Cyfrifeg, Gwasanaethau Trethi a Budd-dal, y Gwasanaeth Pensiwn a'r Gwasanaethau Digidol. Yn ogystal â hyfforddeion a phrentisiaid oedd wedi eu penodi mewn blynyddoedd blaenorol,

rydym wedi penodi dau hyfforddai a phedwar prentis newydd yn 2025 fydd yn gweithio trwy'r Gymraeg.

System Rheoli'r Sefydliad

Yn ystod 2025 rydym wedi paratoi manyleb fanwl ar gyfer cyflwyno system Adnoddau Dynol a Chyflogau newydd ar gyfer y Cyngor. Mae'r fanyleb yn cynnwys gofynion ieithyddol er mwyn i ni hyrwyddo'r Gymraeg tu hwnt i gydymffurfiaeth â'r safonau. Mae'r drefn gaffael yn digwydd ar hyn o bryd.

2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?

Credwn fod y gwasanaethau rydym yn eu darparu i'r cyhoedd yn y meysydd ariannol (e.e. trethi, budd-dal) yn gwbl ddwyieithog, gan gynnwys y llenyddiaeth a ffurflenni rydym yn eu darparu. Er hynny, rydym yn ymwybodol fod pethau'n newid yn gyflym iawn yn y maes budd-daliadau sy'n ymwneud â chyd-weithio gyda cyrff o'r tu allan i'r Cyngor a byddwn yn parhau yn ofalus i sicrhau fod y safonau yn cael eu cynnal.

O safbwynt materion digidol, gwelir yn rhan 1 uchod fod hwn yn faes sy'n datblygu'n barhaus a wrth sefydlu systemau newydd fel bo'r angen byddwn yn gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth â'n disgwyliadau.

3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhowch enghraifft. Sut ydych chi'n sicrhau nad yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Fel Adran, rydym yn chwilio am bob cyfle i fod yn arloesol ac i ddefnyddio technoleg i hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae'r Cynllun Digidol yn nodi'r angen i gynnwys y Gymraeg mewn unrhyw ddarpariaeth digidol, ond tydi'r farchnad ddigidol ddim wastad yn gefnogol i ddarparu systemau dwyieithog.

Adroddwyd llynedd nad oedd cynnyrch llawn hir-ddisgwyliedig Microsoft ar gyfer deallusrwydd artiffisial (Copilot) yn cynnwys y Gymraeg fel iaith sy'n cael ei gefnogi, a drwy hynny, fod cyfleon i ddargyfeirio tasgau megis paratoi cofnodion drwy'r cyfrwng hwn yn cael eu colli ar gyfer cyfarfodydd â gynhelir yn y Gymraeg. Erbyn hyn, mae'r ddarpariaeth wedi cryfhau'n sylweddol a rydym yn peilota Copilot trwy'r Gymraeg ar hyn o bryd.

Yn sgil partneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Cisco, cwmni technoleg byd-eang, mae system ffôn newydd y Cyngor yn cael ei ddarparu ar lwyfan amlieithog (gan gynnwys y Gymraeg) ac mae hwn bellach ar gael i unrhyw ddefnyddiwr ledled y byd.

Datblygiad arloesol arall yw defnydd y Gwasanaeth Pensiwn o dechnoleg deallusrwydd artiffisial i ddarllen gwybodaeth cyfrif pensiwn ar-lein i aelodau o'r gronfa trwy ddull avatar a mynd trwy'r wybodaeth mewn manylder. Mae hyn yn trawsnewid y ffordd cyflwynir yr

wybodaeth ac mae'n llawer gwell profiad i'r defnyddiwr nag edrych ar ffigyrau mewn datganiad ffurfiol.

Gellir gweld fideo yma sy'n rhoi enghraifft ar gyfer John Smith, o aelod ffugiol o'r gronfa:
: https://youtu.be/7rSY-D_YM2k

4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol?

Mae mwyafrif y gwasanaethau a gynigir gan yr Adran yn ymwneud â chefnogi adrannau eraill y Cyngor a'u cynorthwyo hwy i ddarparu gwasanaethau i weddill y Cyngor.

Fodd bynnag, mae'r adran yn gallu dylanwadu ar y gwasanaethau rydym yn eu cynnig a chefnogi'r Gymraeg trwy'r Cyngor.

Gwasanaethau Digidol

Mae pob gliniadur a ddarperir yn gorfforaethol yn cael eu darparu gyda'r llwyfan weithredu wedi ei sefydlu yn y Gymraeg. Cesglir ystadegau pellach er mwyn gwirio y nifer sy'n dewis parhau gyda'r gosodiad yn y Gymraeg, neu yn mynd rhagddo a'i newid i'r Saesneg.

Mae'r gliniaduron a ddarperir gan y Gwasanaeth Dysgu Digidol yn cael eu darparu gyda'r llwyfan gweithredu yn y Gymraeg, ond nid oes gosodiad wedi ei ddarparu ar gyfer mesur os yw'r gosodiad yn cael ei newid. Mae gwaith datblygol yn mynd rhagddo gyda tîm HWB yn Llywodraeth Cymru i alluogi modd o adrodd i'r dyfodol.

Cronfa Bensiwn Gwynedd

Rydym wedi cyflwyno system hunanwasanaeth newydd i'r gronfa pensiwn ym mis Ebrill 2024. Cronfa Bensiwn Gwynedd oedd y gronfa gyntaf yng Nghymru i uwchraddio i'r safle newydd, ac fe fu'n rhaid i ni gydweithio â'r cwmni i ddatblygu fersiwn Gymraeg o'r safle. Roedd hwn yn broses sylweddol, ond bellach mae'r safle'n cael ei ddefnyddio'n genedlaethol wrth i gronfeydd eraill wneud yr uwchraddiad.

Ar hyn o bryd, mae Cronfa Bensiwn Powys, Cronfa Bensiwn Torfaen, Cronfa Bensiwn Abertawe, a Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf eisoes yn defnyddio'r safle. Rydym yn parhau i ddatblygu'r system, gyda nod o gyflwyno elfennau ychwanegol dros y misoedd nesaf. Disgwylir i weddill cronfeydd pensiwn Cymru drosglwyddo i'r safle newydd yn ystod y cyfnod hwn hefyd.

Mae swyddogion y Gwasanaeth Pensiwn hefyd wedi darparu geiriadur o dermau Cymraeg i Gymdeithas Llywodraeth Leol a Ch&TEF ar gyfer defnydd eang.

5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?

Darparwyd yr adroddiad Dynodiadau Iaith diweddaraf ar 1 Hydref 2025 gan ddefnyddio data fel ag yr oedd ar y diwrnod hwnnw. Mae'r adroddiad yn nodi fod 218 o staff yr Adran Gyllid wedi cwblhau hunanasesiad ieithyddol, sy'n 96.9% o'r gweithlu. Roedd 7 aelod o staff heb gyflwyno dadansoddiad ar y diwrnod hwnnw – mae'r rhain i gyd yn staff newydd a byddwn wedi dilyn i fyny ar hyn yn wythnosau cyntaf eu cyflogaeth.

O'r 218 sydd wedi cyflwyno hunanasesiad, roedd 99.1%, sef 216 yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd. Hynny yw, dim ond 2 aelod o staff wedi dod i gasgliad nad ydynt yn cwrdd â dynodiad eu swydd ond rydym yn cynnal cefnogaeth i'r swyddogion hyn er mwyn eu cefnogi i wella eu sgiliau ieithyddol.

Mae un o'r swyddogion hyn yn dilyn gwersi dysgu Cymraeg wythnosol ar lefel Sylfaen ar hyn o bryd. Mae'r swydd yn gofyn am lefel Canolradd, felly mae'r unigolyn oddeutu un lefel yn is na gofyn y swydd.

6. Rhowch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Cronfa Bensiwn Gwynedd

Bu'r Gronfa Bensiwn yn bresennol yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yn Wrecsam, gyda stondin ar y maes i hyrwyddo'r gronfa a'r buddion sydd ar gael i'n haelodau. Roedd y stondin yn gydweithrediad â Chronfa Bensiwn Clwyd, sefydliad lle mae'r rhan fwyaf o'r staff yn ddi-Gymraeg.

Roedd ein staff yn falch o gael cefnogi staff Clwyd drwy groesawu ac ymateb i ymholiadau eu haelodau yn Gymraeg. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan aelodau'r gronfa a staff Clwyd fel ei gilydd, gyda'r gefnogaeth ieithyddol yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr.

Roedd aelodau'n falch o weld y Gronfa Bensiwn yn bresennol ar faes yr Eisteddfod, ac rydym yn gobeithio ein bod wedi cyrraedd unigolion na fyddent fel arfer yn dod i gysylltiad â ni drwy'r sianeli traddodiadol.

Cynllun Prentisiaeth ac Hyfforddeion

Fel adran rydym erbyn hyn yn cyflogi nifer o Brentisiaid ac Hyfforddeion mewn gwahanol feysydd gan gynnwys yn y maes Technoleg Gwybodaeth, Cyfrifeg, Pensiynau, Trethi a Budd-dal, gyda Prentisiaid a Hyfforddeion newydd wedi cychwyn efo'r adran yn ystod yr haf. Maent i gyd yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn dilyn o lwyddiant y cynllun, bu i Tomos Mabon Pritchard, un o Brentisiaid Cyfrifeg gael gwahoddiad i gynrychioli y Cyngor ar banel yng Nghynhadledd Comisiynydd y Gymraeg yng Nghaerdydd am y defnydd o Gymraeg yn y gweithle. Roedd cyfle i Tomos roi ei bersbectif gan ei fod yn Brentis yng Nghyngor Gwynedd sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n

brofiad gwahanol i brofiad eraill oedd yn y gynhadledd. Cafodd gyfle i siarad ac i ganmol y cyfle i gael defnyddio y Gymraeg yn y gweithle a phwysigrwydd hynny.

Gwasanaeth Incwm

Mae'r cyfarwyddiadau i gwsmeriaid ar y system derbyn taliadau trwy gardiau debyd a credyd sef "Call-secure" a aeth yn fyw ym Medi 2024 ar gael yn ddwyieithog. Fe wnaeth yr Uned gydweithio gyda'r cyflenwyr sef Access Paysuite ynghyd ag Uned Gyfieithu'r Cyngor i baratoi'r sgriptiau yn y Gymraeg.

Fodd bynnag nid yw yn bosib ar hyn o bryd i'r Cyngor ddefnyddio modiwl derbyn taliadau "Open Banking" (eto gan Access Paysuite) oherwydd nad yw rhai elfennau o'r drefn ar gael yn y Gymraeg sydd yn enghraifft o gyflenwyr 3ydd parti ddim yn gallu cyfarfod y gofynion ar hyn o bryd.

Adroddiad yr adran i Bwyllgor Iaith yn 2024: [Adroddiad yr Adran Gyllid.pdf](#)

Adroddiad Adran Prifffyrdd, Peirianeg ac YGC ar weithrediad y Polisi Iaith a chyfraniad tuag at wireddu Strategaeth Iaith Gymraeg 2023- 2033

Dyddiad	13 Hydref, 2025
Adran	Prifffyrdd, Peirianeg ac YGC
Awdur	Steffan Jones

1. Pa bolisiau a chynlluniau sydd mewn lle o fewn eich adran er mwyn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith? Nodwch y maes blaenoriaeth (blynnyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned neu ymchwil a thechnoleg)

Polisiau a chynlluniau strategol perthnasol

Strategaeth Iaith y Cyngor 2023 – 2033:

Prosiectau yng nghynllun y Cyngor:

Cymunedau Glân a Thaclus - Mae gwaith ymgysylltu diweddar wedi amlygu fod cymunedau glân a thaclus yn hanfodol os am hybu balchder bro. Mewn ymateb i hyn byddwn yn hwyluso gwelliannau ffisegol i'r amgylchedd adeileddig o fewn ac yng nghyffiniau trefi a phentrefi yng Ngwynedd, drwy ganolbwyntio ar lefydd agored cyhoeddus. Byddwn hefyd yn hybu perchnogaeth leol a datblygu ymdeimlad o falchder bro drwy gydweithio a magu perthnasau â grwpiau/ mudiadau lleol, gwirfoddolwyr a'r trydydd sector.

Gweithredu ar risgiau llifogydd - Mae risgiau o lifogydd ac erydiad arfordirol yn cynyddu gydag effaith newid hinsawdd sy'n golygu fod lefelau môr yn codi a stormydd mwy dwys yn digwydd yn fwy aml. Mae gan Wynedd yr arfordir mwyaf yng Nghymru ac oherwydd natur ein tirwedd mae canran uchel o'n cymunedau, a'r isadeiledd sy'n eu gwasanaethu, ar yr arfordir. Byddwn yn cydweithio gydag asiantaethau eraill, er mwyn blaenoriaethu ein harfordir ar sail risg, ac yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r risgiau lle bo hynny'n bosibl. Mae hefyd risg o lifogydd mewndirol pan fo dŵr yn cronni ac afonydd yn gorlifo. Byddwn yn llunio cynlluniau dalgylch er mwyn helpu i osgoi/ ymateb i fygythiadau presennol a chynyddol i'r dyfodol.

Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y Sir - Mae cyfleoedd chwarae yn bwysig i ddatblygiad plentyn ac mae darparu meysydd chwarae o safon yn un ffordd y gallwn hybu'r cyfleoedd hyn. Byddwn felly yn ailedrych ar ein holl feysydd chwarae ac yn datblygu cynllun fydd yn ystyried sut y gallwn eu gwella yn ogystal â'u cynnal. Byddwn hefyd yn edrych ar sut mae'r ddarpariaeth newydd ar gyfer leuenctid yn gweithio ar draws y sir a pha ddeilliannau y mae'n eu cyflawni i bobl ifanc.

Prosiectau a chynlluniau eraill:

Fel rhan o gynllun Cronfa Ffyniant Gyffredin Cyngor Gwynedd i wella isadeiledd Canol Trefi, fe gafodd Porthmadog, Penygroes a Tywyn eu hadnabod fel cyrchfannau pwysig Safle Treftadaeth y Byd, Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Yn sgil hyn, cyflwynwyd cyfres o welliannau er mwyn creu bwrlwm yn lleol a dathlu'r dreftadaeth gyfoethog.

Roedd 2 brosiect penodol oedd yn eistedd o fewn ein adran, sef:

Prosiect Meiciau Clyfar - Cyflwynwyd 11 mainc clyfar yng Ngwynedd ar ddechrau'r flwyddyn.

Dyma restr o'r lleoliadau: -

1. Tan y Fynwent, Bangor (2 Fainc)
2. Y Maes, Caernarfon (2 Fainc)
3. Pwllheli (1 Fainc)
4. Cricieth (2 Fainc)
5. Promenâd Tywyn (2 Fainc)
6. Y Parc a Llyn Bach / Cob Crwn, Porthmadog (2 Fainc)

Yn ychwanegol i'r meinciau mi wnaethom gomisiynu cwmni SAIN i greu pecynnau sain sy'n adrodd ar hanes yr ardal leol. Bydd pecyn unigryw yn cael eu cyflwyno ar gyfer pob mainc sy'n adlewyrchu lleoliad y mainc. Bydd y clipiau sain wedi cael eu lleisio yn ddwyieithog gan bobl adnabyddus o'r ardaloedd hyn: -

- Bangor (Casi Wyn)
- Caernarfon (Rhys Iorwerth)
- Pwllheli (Guto Dafydd)
- Cricieth (Gwyneth Glyn)
- Tywyn (Manon Steffan Ros)
- Porthmadog (Y Parc) (Cedron Siôn)

Stribedi Llechi

Cyflwynwyd stribedi llechi yn nhroedffyrdd Tywyn a Phorthmadog. Bydd llechi Penygroes yn cael eu cyflwyno o fewn y misoedd nesaf. Yn Nhywyn ysgrifennodd Manon Steffan Ros gerddi yn arbennig ar gyfer y stribedi llechi. Gweler luniau o'r llechi yn Atodiad 1. Byddwn yn creu deunydd i hyrwyddo'r gwaith ar ein cyfryngau cymdeithasol.

YGC

Cynllun Busnes YGC - Lansiwyd Cynllun Busnes newydd YGC ar y 4ydd o Ebrill mewn digwyddiad i'r staff. Mae trydedd rhan y Cynllun Busnes yn cynnwys Cyfraniad Lleol a Chenedlaethol - Y Gymraeg a Chymreictod - "Ers ni gael ein sefydlu yn 1996, rydym yn darparu gwasanaethau yn ddwyieithog ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Byddwn yn parhau i ddarparu ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cynnal a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith mewn meysydd technegol. **Ei Nod** - Gwella Sgiliau Iaith: Anelwn at ddatblygu sgiliau iaith ein gweithlu trwy ddarparu addysg a hyfforddiant Cymraeg, gan gynnwys cyrsiau ac ymgyrchoedd addysg iaith i staff. Trwy hyn, byddwn yn datblygu ac yn gwella amgylchedd y gweithle i staff sy'n siarad Cymraeg, gan wella'r ymdeimlad o berthyn a chynhwysiant pob aelod o staff".

Fideo Recriwtio YGC - Drwy ddefnyddio adnoddau mewnol, crëwyd fideo recriwtio dwyieithog gan ganolbwyntio ar gynnal gweithle Cymraeg a chyfleon i ddatblygu yn academiaidd a proffesiynol tra dal i fyw'n lleol.

Digwyddiadau - Cynhaliwyd Stondin ar faes yr Eisteddfod yn Wrecsam gan ganolbwyntio ar ddatblygu gyrfa gyda YGC, a bod YGC yn cynnig gwasanaethau dwyieithog i'n holl gleientiaid. Cynhaliwyd y Stondin mewn partneriaeth gyda Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Drwy raeadru negeseuon dyddiol ar gyfryngau Traffig Cymru, yn ogystal a YGC a Chyngor Gwynedd, roedd posib cyrraedd cynulleidfa eang o bobl ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?

Cydweithio gyda Busnes Lleol – Is-contractwyr - Mae ein Tîm Categori Amgylchedd wedi cynnal digwyddiad yn Tŷ Gwyrddfai ym Mhenygroes yn ystod mis Rhagfyr mewn cydweithrediad gydag adrannau eraill o'r Cyngor, Cymdeithas Tai Adra Cyf a chwmnïau eraill.

Hyrwyddo Swyddi, Gyrfaoedd a Gwasanaethau - Mae'r Adran yn cefnogi ffeiriau swyddi a digwyddiadau a rydym yn sicrhau ein bod yn mynychu'r digwyddiadau hyn i ymgysylltu gyda pobl Gwynedd a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig swyddi arbenigol mewn sawl maes ac mae digwyddiadau o'r fath yn rhoi cyfle i sgwrs gyda pobl wyneb yn wyneb, gan drafod y buddion o weithio i'r Cyngor fel gweithle Cymraeg a'r math o wasanaethau mae'r Adran yn ei gynnig yn ddwyieithog i'r cwsmer.

Dyma enghreifftiau o'r math o ddigwyddiadau dan sylw: -

- Cefnogi ffeiriau Swyddi Gwaith Gwynedd ar draws y Sir.
- Cynnal digwyddiad ar gyfer contractwyr yn Tŷ Gwyrddfai Adra.
- Mynychu digwyddiad gyrfaoedd yn M-Sparc.

3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhowch enghraifft. Sut ydych chi'n sicrhau nad yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Tra bod heriau yn codi gyda cyflwyno systemau yn y Gymraeg, mae gennym enghreifftiau o ymarfer da sydd wedi cymryd lle.

System Asedau Fflyd - Gan weithio ar y cyd, mae'r Gwasanaeth Fflyd ac Adran Technoleg Gwybodaeth Cyngor Gwynedd wedi datblygu system i reoli Fflyd y Cyngor. Mae'r datblygiad hwn yn cynnwys cofnodi a chadw manylion am gerbydau, archebu deunyddiau, cofnodi gwaith a gwblheir ar gerbydau, rheoli gyrwyr, cynnal rhaglen cynnal a chadw ymysg nifer o bethau eraill sydd angen i gyfarch anghenion statudol y Cyngor wrth reoli cerbydau.

Mae ail ran o'r datblygiad ar fin cael ei gyflwyno sef "ap" penodol i'r gyrwyr allu cofnodi gwiriadau ac adrodd ar ddiffygion.

Mae'r system wedi cael ei ddatblygu yn Gymraeg ac ar gael yn ddwyieithog, a dyma'r unig system o'r fath (cyn belled ag rydym yn ymwybodol) sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn llawn.

Rydym eisoes mewn trafodaethau gydag awdurdodau eraill ar gyfer ei pwrcasu a'i defnyddio.

Fideos – “Sut i ddefnyddio cerbydau trydan” - Mae'r Uned Busnes wedi cyd-weithio gyda gwasanaeth fflyd yr adran i greu cyfres o fideos dwyieithog byr i ddangos i staff sut i ddefnyddio ceir trydan. Roedd nifer o staff wedi datgan pryder am yrru'r cerbydau a sut i'w gwefru, felly crëwyd fideos byr sydd ar gael i'r holl staff i ddysgu gam wrth gam sut i wefru cerbydau trydan. Mae'r fideos hefyd yn cynnwys arferion da ac atebion i gwestiynau sydd yn codi yn aml.

Mae'r tîm hefyd wedi cydweithio gyda'r gwasanaeth gofal i greu fideo i annog gofalwyr i ddefnyddio cerbydau pŵl trydan.


4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol?

Unrhyw ddata arall perthnasol

Mae ymholiadau cyffredinol yr Adran yn cael eu cofnodi yn system safonol mewnol FFOS y Cyngor. Yr ydym â threfniant i unrhyw ohebiaeth gychwynnol fynd yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Bydd hyn yn sicrhau ac yn annog defnydd yr iaith Gymraeg. Yr ydym hefyd yn sicrhau bod unrhyw bost ar gyfryngau cymdeithasol yr Adran yn dangos y Gymraeg yn gyntaf.

5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?

Dyma sefyllfa sgiliau iaith yr adran ar 1af o Hydref 2025.



- Mae'r Adran yn cyflogi 433 o staff.
- Mae 265 o'r staff wedi cwblhau'r Hunanasesiad iaith sef 61.2%.
- Ar gyfer 149 pellach o'r gweithlu (rheng flaen), mae'r rheolwyr llinell wedi cwblhau asesiad ar eu rhan.
- Mae hyn yn gadael 19 sydd heb asesiad iaith o gwbl.
- Mae 96.9% o'r staff yn cyrraedd dynodiad iaith y swydd.

- Mae 13 aelod o staff nad ydyn nhw'n cyrraedd dynodiad iaith eu swydd. O rhain mae 2 yn derbyn hyfforddiant iaith ar hyn o bryd.

Rydym yn cefnogi ein staff i fynychu hyfforddiant perthnasol, gweler isod gofnod o'r niferoedd sydd wedi dilyn hyfforddiant eleni.

1 x Cwrs Mynediad 2

1 x Cwrs Canolradd 2 – Dysgu Cymru

1 x Cwrs 'Defnyddio' Cymraeg Gwaith Uwch – Nant Gwrtheyrn

1 x Cwrs Magu Hyder

6.Rhowch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Adran yn gwneud defnydd helaeth o systemau ond rydym yn cydnabod bod diffyg yn y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer llawer o'r systemau hyn. Yr ydym yn gweithio'n galed er ymdrechu i sicrhau bod unrhyw system sy'n wynebu'r cyhoedd ar gael yn ddwyieithog.

Mae'r Gwasanaeth YGC gyda achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl (BMP) - Adnewyddwyd yr achrediad yma yn ddiweddar a cynhaliwyd holl gamau'r achrediad gyda BMP o'r cyfarfod cyntaf i dderbyn y dystysgrif adnewyddu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mynychu Digwyddiadau - Roedd yn amlwg o'r adborth a gawsom yn Sioe Sir Fôn ac yn y digwyddiadau gyrfaedd eleni bod gwerthfawrogiad mawr, nid yn unig i'r gwasanaeth a gyflwynir i'n trigolion, ond hefyd i ddefnydd a'r hyrwyddo o'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn. Roedd hyn yn galonogol ac yn cadarnhau ein bod ar y llwybr cywir yn ein hagwedd at yr iaith.

Arwyddion Ffordd - Nid yw'r Adran wedi derbyn beirniadaeth am ein defnydd o'r iaith. Fodd bynnag, yr ydym wedi dod ar draws un contractwr allanol oedd yn gweithio ar ran y Gwasanaeth Cynnal Ffyrdd gydag arwydd uniaith Saesneg. Cafodd y mater ei ddatrys yn syth gan atgoffa'r contractwr o ofynion ein cytundeb gwaith.

*Gweler Atodiad 1 ar gyfer enghreifftiau o luniau sydd yn cyfarch elfennau o'r adroddiad.

Adroddiad yr adran i Bwyllgor Iaith 2024: [Adroddiad Adran Priffyrdd Peirianeg ac YGC.pdf](#)

ATODIAD 1

1. Stribedi Llechi



ATODIAD 1

2. Hyrwyddo Swyddi, Gyrfaoedd a Gwasanaethau

Stondin YGC ac Asiant Cefnffyrdd Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025



3. Llun o'r Mewnrwyd - Fideos Sut i ddefnyddio cerbydau trydan



Gwefru Cerbydau Gwahanol

Fideos sydd yn dangos i chi sut mae gwefru gwahanol gerbydau'r Cyngor.

[Cliciwch ymlaen i ddarllen →](#)

PWNC

Defnyddio ceir trydan yn y gweithle

Gofalwyr Cymunedol y Cyngor yn rhannu eu profiad o ddefnyddio ceir trydan yn y gwaith.



PWNC

Arferion Da

Yn y darn yma cewch wybodaeth am y pwyntiau gwefru a chanllaw gyrru.



4. Logo Achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl

INVESTORS IN PEOPLE™

We invest in people Standard

Rydym yn buddsoddi mewn pobl Safonol